

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
Y FANYLEB PERSON

ADRAN	Hyfforddi a Datblygu
TEITL Y SWYDD	Hyfforddwr Gyrru
SWYDD RHIF	504084
GRADD	10
LLEOLIAD	Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â serenig*** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan Adran *Profiad a Gwybodaeth Arall*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

Ffactor	Tystiolaeth	Hanfodol/ Dymunol	Dull Canfod
Cymwysterau	Trwydded yrru llawn a chyfredol a ddaliwyd am leiafswm o 3 blynedd *	Hanfodol*	Ffurflen Gais*
	Trwydded yrru Cerbyd Nwyddau Mawr llawn a chyfredol (LGV) a ddaliwyd am leiafswm o 3 blynedd *	Hanfodol*	Ffurflen Gais*
	Tystysgrif Cymorth Cyntaf yn y Gweithle neu brofiad perthnasol	Hanfodol*	Ffurflen Gais
	Yn gymwys mewn un neu fwy o'r dilynol: <ul style="list-style-type: none"> • Cymhwyster RTITB neu gymhwyster hyfforddwr Gweithgor lechyd a Diogelwch arall a adnabuwyd yn genedlaethol (ITSSAR, NPORS, AITT ac ati) mewn: <p>Wagenni Fforch Godi Moffett Mouny, Wagenni Fforch Godi Counterbalance, Cynhwysyddion dros dro Craeniau ar gefn cerbydau/ Llwythwyr Lori</p> • Hyfforddwr Gyrru Cymeradwy (ADI) cofrestredig â'r Asiantaeth Safonau i Yrwyrr a Cherbydau (DVSA) 		

Gwybodaeth/ Profiad	Profiad o ddarparu hyfforddiant gyrru neu brofiad o gyflwyno profion gyrru mewn un neu rai o'r cerbydau canlynol: *	Hanfodol*	Ffurflen Gais*/Proses Ddethol
	<ul style="list-style-type: none"> • Cerbydau nwyddau mawr • Cerbydau ysgafn • Cerbydau cario teithwyr • Tynnu Ôl-gerbydau • Hyfforddiant Ymateb Argyfwng i Yrwyrr (ERDT) • Cerbydau oddi ar y lôn • Wagenni Fforch Godi • Unedau dros dro • Craeniau ar gefn cerbydau • Arholiad Dirprwyedig/Galwedigaethol DVSA Categoriâu B ac E, C a D1 		
	Profiad o ddarparu hyfforddiant neu gyflwyniadau yn arddull yr ystafell ddosbarth *	Hanfodol*	Proses Ddethol*
	Profiad o gyflawni asesiadau risg at bwrpasau hyfforddi	Dymunol	Ffurflen Gais
Profiad o ddarparu adborth un i un neu grŵp	Dymunol	Ffurflen Gais	
Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	Ffurflen Gais	
Arddull Bersonol	Y gallu i weithio mewn cydymffurfedd llwyr â pholisïau sefydliadol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir *	Hanfodol*	Ffurflen Gais*/Proses Ddethol
	Y gallu i gynnal agwedd hyderus a chydnerth mewn sefyllfaoedd hynod heriol	Dymunol	Proses Ddethol
Rhyngbersonol	Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaoedd *	Hanfodol*	Proses Ddethol*
	Ymrwymiad i a'r gallu i ddatblygu eich hun, unigolion, timau ac eraill i wella effeithiolrwydd gweithredol *	Hanfodol*	Ffurflen Gais*/Proses Ddethol
Tasg	Y gallu i ddeall a chymhwysu gwybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau priodol a chreu datrysiadau ymarferol	Dymunol	Proses Ddethol
	Y gallu i gynnal ymwybyddiaeth fyw o'r amgylchfyd i hyrwyddo gweithio diogel ac effeithiol *	Hanfodol*	Ffurflen Gais*/Proses Ddethol

**Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng safleoedd ar draws De Cymru.
Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.**

**Bydd peth gweithio gyda'r nosweithiau a'r penwythnos ac mae cynllun
gweithio hyblyg mewn grym.**

